Addasiadau i Amcangyfrif o Incwm a Gwariant Comisiynydd y Gymraeg 2016-17

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Atodlen 1, Rhan 5) yn nodi:

- Ar gyfer pob blwyddyn ariannol ac eithrio'r un gyntaf, rhaid i'r Comisiynydd lunio amcangyfrif o incwm a gwariant swyddfa'r Comisiynydd.
- Rhaid i'r Comisiynydd gyflwyno'r amcangyfrif i Weinidogion Cymru o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.
- Rhaid i Weinidogion Cymru archwilio amcangyfrif a gyflwynir iddynt yn unol â'r paragraff hwn ac yna rhaid iddynt osod yr amcangyfrif gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyda'r addasiadau (os oes rhai) sy'n briodol yn eu tyb hwy.

Caiff y ddogfen hon ei gosod gerbron y Cynulliad ynghyd ag Amcangyfrif Incwm a Gwariant Comisiynydd y Gymraeg 2016-17 yn unol a'r darpariaethau uchod.

Roedd y sefyllfa ariannol heriol a wynebwyd gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU yn golygu y bu'n rhaid dod o hyd i arbedion o bob maes polisi yn ystod cylch cynllunio cyllideb 2016-17.

Cafodd y gostyngiad i gyllideb y Gymraeg yn ei chyfanrwydd ei gyfyngu i 5.9% drwy warchod gweithgarwch i hybu'r Gymraeg mewn cymunedau. Felly, rydym wedi gorfod gwneud y penderfyniad anodd i leihau cyllideb Comisiynydd y Gymraeg 10%.

Mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu at Gomisiynydd y Gymraeg i gadarnhau taw cyllideb y Comisiynydd ar gyfer 2016-17 fydd £3,051,000.